

Map trywydd hydroleg llifogydd

Rhaglen Ymchwil ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Dyddiad: Mawrth 2022

Prosiect: FRS18196

Mae'r map trywydd hydroleg llifogydd yn nodi gweledigaeth ar gyfer hydroleg llifogydd yn y DU am y 25 mlynedd nesaf. Mae cynllun gweithredu yn cyd-fynd â'r map sy'n nodi sut y bydd y weledigaeth honno'n cael ei chyflawni.

Bydd y map trywydd yn cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon rhwng 2021 a 2046. Mae'n ystyried pob ffynhonnell o lifogydd mewndirol, gan gynnwys o afonydd, glaw a charthffosydd, dŵr daear a chronfeydd dŵr. Mae hefyd yn ystyried yr holl weithgareddau hydroleg llifogydd mewndirol yn y DU, o ymarfer gweithredol i ymchwil wyddonol.

Cefndir

Ysgogwyd y broses o ddatblygu'r map trywydd gan y canlynol:

- graddfa'r buddsoddiad sy'n sail i ddata, dulliau, modelau ac arbenigedd hydroleg llifogydd (tua £6 biliwn dros y chwe blynedd nesaf)
- yr angen i gefnogi'r gwaith o weithredu strategaethau rheoli perygl llifogydd ledled y DU
- yr angen i wella trefniadau gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ar draws cymuned hydroleg llifogydd y DU
- yr angen i wella'r modd y rhoddir gwyddoniaeth ar waith
- yr angen i ymdrin â chyfyngiadau a phroblemau hysbys mewn dulliau hydroleg llifogydd gweithredol sy'n bodoli eisoes
- yr angen i hydroleg llifogydd ystyried a rhagweld effeithiau newid amgylcheddol yn y dyfodol (newid yn yr hinsawdd a newid o ran defnydd tir)
- y cyfle i hydroleg llifogydd gyfrannu at dargedau carbon sero net

Dull

Asiantaeth yr Amgylchedd sydd wedi arwain prosiect y map trywydd, ond mae'r map trywydd ei hun wedi'i ddatblygu gan ac ar gyfer cymuned hydroleg llifogydd y DU. Mae wedi'i lunio o amgylch gweledigaeth ar gyfer y 25 mlynedd nesaf sydd â'r nodau canlynol:

- yn ystod y 25 mlynedd nesaf, bydd cymdeithas wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth hydrolegol er mwyn rheoli perygl llifogydd mewn byd sy'n newid
- bydd tystiolaeth ragorol ar y cyd ag ansicrwydd mesuredig yn sail i ddealltwriaeth o hydroleg llifogydd a phroses systemau cyfan
- mae arweinyddiaeth a chydweithio'n hanfodol er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon

Bydd y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu drwy 31 cam gweithredu wedi'u grwpio'n bedwar maes gwaith:

- ffyrdd o weithio
- data
- dulliau
- dealltwriaeth wyddonol

Camau nesaf

Er mwyn llwyddo i gyflawni gweledigaeth map trywydd hydroleg llifogydd y DU yn y tymor hir, bydd angen arweinyddiaeth gref a gwella trefniadau gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ar draws y gymuned

hydroleg llifogydd. Amcangyfrifir bod angen neilltuo rhwng £110 miliwn a £165 miliwn dros y 25 mlynedd nesaf.

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect FRS18196, a adroddwyd yn fanwl yn yr allbwn/allbynnau canlynol:

Adroddiad: FRS18196-R1

Teitl: Map trywydd hydroleg llifogydd – datblygu'r map trywydd a'r cynllun gweithredu

Atodiad: FRS18196-A1

Teitl: Map trywydd hydroleg llifogydd - atodiadau

Atodiad: FRS18196-A2

Teitl: Map trywydd hydroleg llifogydd - holiadur

Atodiad: FRS18196-A3

Teitl: Arolwg map trywydd hydroleg llifogydd y DU

Rheolwr y prosiect: Dr Sean Longfield, Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCRM Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Gwefan: [Flood and Coastal Erosion Risk Management Research and Development Programme](#)

E-bost: fcrm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd